# Datblygu ac adolygu trefniadau cydweithio i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu ac adolygu trefniadau cydweithio i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr.  Mae'n ymwneud â nodi sut y gallwch chi a'ch sefydliad weithio gydag adrannau mewnol ac asiantaethau a sefydliadau allanol i wneud hyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gafael ar wybodaeth gywir a chyfredol am weithwyr, sefydliadau ac asiantaethau sy'n gallu eich helpu chi a'ch sefydliad i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr
2. nodi cydweithwyr perthnasol o adrannau mewnol, ac asiantaethau a sefydliadau allanol y gallech weithio gyda nhw i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr
3. nodi bylchau mewn profiad ac arbenigedd yn eich sefydliad eich hun a thrafod sut gallai cydweithwyr o adrannau mewnol ac asiantaethau a sefydliadau allanol eu llenwi
4. nodi meysydd lle gallai profiad ac arbenigedd cydweithwyr o adrannau mewnol, yn ogystal ag asiantaethau a sefydliadau allanol, wella eich profiad chi a chydweithwyr perthnasol yn eich sefydliad
5. nodi cydweithwyr perthnasol o adrannau mewnol, ac asiantaethau a sefydliadau allanol y gallech weithio gyda nhw i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr
6. gwerthuso a chytuno â'r adrannau, asiantaethau neu sefydliadau mewnol perthnasol yr angen a'r diben ar gyfer datblygu trefniadau cydweithio
7. cyfrannu at nodi a chytuno ar sut byddwch yn gweithio gyda sefydliadau mewnol, adrannau, asiantaethau a sefydliadau perthnasol, a rolau a chyfrifoldebau'r rhain o fewn y cytundeb cydweithio, gan gynnwys pwy ddylai fod â chyfrifoldeb arweiniol
8. sicrhau bod unrhyw drefniadau cydweithio yn cydymffurfio â'r polisïau ac arferion cyfreithiol, rheoleiddio a sefydliadol perthnasol
9. cytuno ar strategaethau i gynnal cyfrinachedd a diogeledd gwybodaeth gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol a gofynion sefydliadol, polisïau a gweithdrefnau'r adrannau, asiantaethau a sefydliadau mewnol perthnasol
10. cyfrannu at yr adolygiad o drefniadau cydweithio yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
11. gweithio o fewn cytundebau cydweithio i wneud addasiadau fydd yn gwella'r gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr
12. cadarnhau bod unrhyw waith yr ydych yn cytuno i'w wneud yn cydymffurfio â'r polisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
13. cytuno ar newidiadau gydag adrannau, asiantaethau a sefydliadau mewnol

perthnasol, lle mae adolygiadau'n dangos y byddai newidiadau mewn arferion gwaith yn gwella'r gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau wrth gyfrannu at asesu a chamau i ddelio â'r risg o berygl, niwed a cham-driniaeth
2. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol
3. sut mae gwahanol werthoedd a safbwyntiau adrannau mewnol perthnasol, asiantaethau allanol a sefydliadau yn effeithio ar drefniadau cydweithio
4. effaith eich strwythur a'ch diwylliant sefydliadol ar bolisi ac arferion gweithio rhyngasiantaethol
5. y codau ymarfer ac ymddygiad perthnasol, a safonau a chanllawiau sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau a rôl adrannau mewnol perthnasol, ac asiantaethau a sefydliadau allanol wrth ddatblygu trefniadau cydweithio
6. mentrau llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig sy'n effeithio ar eich arferion sefydliadol wrth weithio ar y cyd ag adrannau mewnol perthnasol, ac asiantaethau a sefydliadau allanol
7. sut i gael mynediad at weithdrefnau a systemau sefydliadol a gweithleoedd ar gyfer cydweithio, eu gwerthuso a dylanwadu arnynt
8. polisïau, arferion a gweithdrefnau perthnasol sefydliadau a gweithwyr eraill sy'n effeithio ar drefniadau cydweithio
9. sut a ble i gael mynediad at lenyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i lywio eich arferion cydweithio
10. cyflyrau corfforol, emosiynol ac iechyd yr unigolion yr ydych chi, eich cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn gweithio gyda nhw a sut mae'r cyflyrau hyn yn effeithio ar ymddygiad yr unigolyn
11. defnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyfiawnhau eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau a chofnodi ac adrodd ar brosesau a deilliannau eich gwaith
12. y ffyrdd o drafod trefniadau cydweithio a chytuno arnynt
13. y dulliau perthnasol o adolygu cytundebau cydweithio i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr
14. pam mae angen rhoi gwybod i unigolion yn eich sefydliad chi a sefydliadau eraill am newidiadau i drefniadau cydweithio sefydledig

INSHOU52

Datblygu ac adolygu trefniadau cydweithio i ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion defnyddwyr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 06 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | SFHHSC433 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; datblygu; cynnal; perthnasoedd; cytundebau; arferion; |